# Hel atgofion



**Roedd brawd Ann Owen yn wrthwynebydd cydwybodol yn ystod y rhyfel.**
**Yn y cyfweliad hwn gyda Malcolm Hughes mae hi'n sôn am ei phrofiadau.**

***Malcolm Hughes**: Diolch i chi am gytuno i rannu'ch atgofion gyda fi Mrs Owen. Sut beth oedd hi i gael brawd oedd yn gwrthod ymuno â'r fyddin?*

**Ann Owen**: Doedd hi ddim yn hawdd iawn. Dwi'n cofio mam a 'nhad yn deud wrtha i, 'Rwan ta, mae 'na lot o bobol rwan yn mynd i ddeud petha mawr am dy frawd. Ond mae'n rhaid i ti gau dy geg yn dynn, a peidio atab yn ôl, a peidio deud dim byd, achos dydyn nhw ddim yn gwbod ddim gwell, ond 'dan ni yn 'i gefnogi o ac ma' rhaid i chitha, genod, neud yr un peth.'

***Malcolm Hughes**: Pa fath o bethau oedd pobl yn ei wneud?*

**Ann Owen**: O'dd rhai yn ffiaidd iawn. Mae genna i go' am fod yn y siop, a bobol yn sôn 'O! Now Bronant, cwilydd iddo fo' - a pethe fel 'na, ac yn troi 'u trwyna arna i fel taswn i'n faw.

***Malcolm Hughes**: Beth oedden nhw'n ei ddweud te?*

**Ann Owen**: O, 'Ofn mynd i rhyfal' – 'na be 'san nhw'n deud – 'Ofn mynd i rhyfal' – petha fel 'na. A meddwl y dyla pawb fynd i'r fyddin i ryfela, wchi. Mae o'n *understandable*, wir, achos, 'dach chi'n gwbod tasa pawb yn *Conscientious Objector*, fasa hi 'di bod yn ddigon sobor arnon ni, yn fasa? A Hitler wedi dwad a martsio i fyny a lawr y stryd 'ma, ond dyna fo.

***Malcolm Hughes**: Sut oeddech chi'n teimlo pan oeddech chi'n clywed pobl yn dweud pethau fel 'na?*

**Ann Owen**: O, o'n i'n reit ypset. Fyddwn i'n mynd adre ac yn crïo 'chydig bach. Ddim lot. S'gen i ddim cof o grïo lot ... `Nâth o ddim `mhoeni fi gymaint â hynny ... Ond ma'n siwr gin i bod o wedi brifo lot o mam druan, ma'n siwr gin, i ond fasa hi ddim yn deud.

***Malcolm Hughes**: Oeddech chi'n deall pam roedd eich brawd yn gwrthod mynd i ryfel?*

**Ann Owen**: O'n, i radda. O'n i'n gwbod bod Hitler yn ddyn drwg felltigedig ond o'n i'n ... wedi bod yn darllan, a fedrwn i 'm gweld bod y wlad yma wedi bod yn rhyw dda iawn hefo'r bobol dduon yn Affrica. A sut oedd hi wedi trin pobol yn yr India? A o'n i wedi clywad am y Black Hole of Calcutta. Ia, ac o'n i'n mynd i capal ar y Sul, gwrando pregath bora a nos a mi ddôth y gweinidogion yn 'u tro i weddïo ar Dduw ac yn gofyn iddo fo roid ... gorchfygaeth i Brydain Fawr a do'n i ddim yn gweld rheswm mewn peth fel 'na achos o'n i'n meddwl – milwr yn cwffio yn erbyn milwr – bob un yn fab i rywun.

***Malcolm Hughes**: A dyna sut roedd eich brawd yn teimlo?*

**Ann Owen**: Ia, rhwbath fel 'na. Fuo rhaid iddo fynd o flaen Tribiwnlys ac roedd y bobol yno yn trio 'i drapio. Afiach ....